**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
Senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Elin Jones AS
Llywydd

Dyddiad: 16 Tachwedd 2021

Pwnc: Hyfforddiant diogelu

Annwyl Elin,

Mae'n ymddangos yn briodol ysgrifennu atoch yr wythnos hon, yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu, i rannu ein profiadau o hyfforddiant diogelu. Yn ddiweddar, gwnaethom gwblhau'r cwrs cyflwyniad dwy ran i Ddiogelu ac Amddiffyn Plant yng Nghymru a ddarparwyd gan yr NSPCC. Roedd y penderfyniad i wneud yr hyfforddiant hwn yn un o'r rhai cyntaf a wnaethom fel Pwyllgor. Roeddem yn credu ei bod yn bwysig ar lefel ymarferol, i'n helpu i wybod beth y dylem ei wneud pe baem ni'n dod ar draws unrhyw bryderon diogelu yn ystod gwaith ein Pwyllgor; a hefyd fel datganiad o ba mor bwysig a hanfodol yw diogelu yn ein barn ni i unrhyw un sy'n dod i gyswllt â phlant a phobl ifanc.

Roedd yr hyfforddiant yn ardderchog; ac roedd hyd yn oed yr Aelodau hynny a oedd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu o'r blaen yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol yng nghyd-destun eu rôl fel AS. Yn ôl a deallwn, nid oes unrhyw ffordd o wneud hyfforddiant yn orfodol i bob AS. Fodd bynnag, hoffem annog ein holl gydweithwyr i fanteisio ar y cyfle i ymgymryd â hyfforddiant diogelu. Rydym hefyd yn cyhoeddi datganiad (amgaeedig) i'r perwyl hwn.

Rydym yn ymwybodol bod hyfforddiant diogelu yn cael ei ddarparu gan amrywiaeth o wahanol ddarparwyr yng Nghymru, ac y gall y tîm Dysgu ac Ymgysylltu ag Aelodau yn y Senedd gefnogi naill ai AS unigol neu grwpiau o ASau i ymgymryd â'r hyfforddiant. Rydym yn deall bod y tîm hwn, fel rhan o'r Wythnos Genedlaethol Diogelu, yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i ddysgu mwy am ddiogelu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at arweinwyr y pleidiau, a Jane Dodds AS. Rydym yn gwybod y gall arweinwyr y pleidiau chwarae rhan bwysig wrth annog aelodau o'u grwpiau i ymgymryd â hyfforddiant o'r fath.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Copi at:

Mark Drakeford AS

Paul Davies AS

Adam Price AS

Jane Dodds AS

Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

We welcome correspondence in both English and Welsh